Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Ffynnon Taf

## Dyddiad yr arolygiad: **Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar i ddisgyblion ddysgu a ffynnu. Mae lles y disgyblion yn bwysig i bob un o'r staff ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sicrhau perthnasoedd cryf ac ethos o ofal, dealltwriaeth a pharch. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae arweinwyr a staff yn gosod safonau proffesiynol uchel trwy eu gwaith a'r ymddygiadau y maent yn eu modelu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Mae'r addysgu yn effeithiol ym mhob dosbarth, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i fod yn annibynnol yn eu dysgu o oedran cynnar. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol buddiol ac yn deall eu hunain yn dda fel dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae'r cwricwlwm yn gyfoethog ac yn hynod ddifyr. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Cynigir ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i ennill medrau gwerthfawr a datblygu gwybodaeth ddefnyddiol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn gwahanol gyd-destunau ac yn datblygu'r gallu i gydweithio'n dda â disgyblion eraill neu ar eu pen eu hunain.

Ym mhob dosbarth, mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion werthuso gwaith creadigol pobl eraill, fel arlunwyr, cerddorion a dylunwyr. Mae hyn yn helpu disgyblion i werthfawrogi gwaith disgyblion eraill, datblygu eu medrau creadigol eu hunain yn llwyddiannus, a myfyrio ar ansawdd eu gwaith creadigol, a'i wella.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gael golwg glir ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Maent yn nodi camau nesaf yr ysgol i wella ac wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth mewn nifer o feysydd allweddol dros gyfnod. Mae gan yr ysgol adnoddau helaeth ac mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effaith cyllid grant yn ddigon da.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

**A1 Dylai'r ysgol barhau â'i thaith wella**

**Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn gysylltiedig â'r arolygiad hwn.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**





Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.



Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025


Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.